LPA107

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Office of the Public Guardian

Atwrneiaethau Arhosol

Canllaw i Ddarparwyr Tystysgrif a Thystion

www.publicguardian.gov.uk

Cynnwys

Rhagarweiniad		4
Rhan A	Darparwyr Tystysgrif	5
	Rôl Darparwr Tystysgrif	5
	Pwy all fod yn Ddarparwr Tystysgrif	6
	Pwy na all fod yn Ddarparwr Tystysgrif	7
	Cyfrifoldebau Darparwr Tystysgrif	8
	Deall galluedd meddyliol	9
Rhan B	Tystio	12
	Beth yw Tyst	12
	Pwy all fod yn Dyst	12
	Cyfrifoldebau Tyst	13
Cysylltu â ni		14

Rhagarweiniad

Mae'r arweiniad hwn i unrhyw un y gofynnwyd iddo ymgymryd â rôl Darparwr Tystysgrif neu Dyst ar gyfer Atwrneiaeth Arhosol (LPA).

Mae dwy adran i'r arweiniad hwn:

Rhan A Mae Darparwyr Tystysgrif yn cynnwys:

- rôl Darparwr Tystysgrif;
- pwy all fod yn Ddarparwr Tystysgrif;
- pwy na all fod yn Ddarparwr Tystysgrif;
- cyfrifoldebau Darparwr Tystysgrif; a
- phenderfynu galluedd meddyliol

Rhan B Mae Tystio yn cynnwys:

- beth yw Tyst;
- pwy all fod yn Dyst; a
- chyfrifoldebau Tyst.

Rhan A – Darparwyr Tystysgrif

Eich rôl

Mae hon yn rôl bwysig iawn ac yn rhywbeth y dylech ei ddeall yn llwyr cyn cytuno i ymgymryd â hi. Mae Darparwr Tystysgrif yn rhywun mae'r **Rhoddwr** (y person sy'n gwneud yr Atwrneiaeth Arhosol) yn ei **ddewis** i gwblhau Rhan B Tystysgrif Atwrneiaeth Arhosol (LPA) er mwyn cadarnhau bod y Rhoddwr yn ei farn ef:

- yn deall beth yw LPA ac yn deall cynnwys ei LPA;
- yn deall pa bwerau mae'n rhoi i'r Twrnai/Twrneiod yn ei LPA;
- ddim yn cael ei orfodi na'i dwyllo gan rywun arall i wneud yr LPA; a
- nad oes dim byd arall a fyddai'n atal yr LPA o dan sylw rhag gael ei chreu.

Y Dystysgrif

Mae'r Dystysgrif yn rhan hanfodol o'r ffurflen LPA. Nid yw'r LPA yn ddilys hebddi ac nid oes modd ei chofrestru. Am y rheswm hwn, ni ddylid gwahanu'r Dystysgrif oddi wrth yr LPA.

Os gofynnwyd i chi gwblhau Tystysgrif, rhaid i chi ddarllen yr wybodaeth ragnodedig yn y ffurflen yn ofalus. Hefyd, rhaid i chi ddarllen yr LPA y gofynnir i chi ei harwyddo a sicrhau eich bod yn deall yr amodau ynddi.

Os bydd rhywun yn herio gallu'r Rhoddwr i wneud yr LPA efallai y bydd yn ofynnol i chi esbonio wrth y Llys Gwarchod eich penderfyniad i arwyddo'r Dystysgrif.

Fodd bynnag, gofynnir i chi roi **eich barn chi** yn unig ynglŷn â galluedd y Rhoddwr pan ofynnwyd i chi ardystio'r LPA. Ni fyddwch yn gyfrifol os bydd galluedd y Rhoddwr yn newid ar ôl hynny neu os bydd pryderon yn cael eu codi, er enghraifft, adeg cofrestru.

Pwy all weithredu fel Darparwr Tystysgrif?

Mae dau fath o Ddarparwr Tystysgrif:

Categori A

Ardystio gwybodaeth – mae Darparwr Tystysgrif yn seiliedig ar wybodaeth yn rhywun sydd yn adnabod y Rhoddwr yn bersonol ac sydd wedi ei adnabod **ers o leiaf dwy flynedd**.

Categori B

Ardystio sgiliau – mae Darparwr Tystysgrif yn seiliedig ar wybodaeth yn rhywun a ddewisir gan y Rhoddwr ac sy'n ystyried bod ganddo'r **sgiliau proffesiynol a'r arbenigedd perthnasol** i ardystio'r LPA.

Dyma rai Darparwyr Tystysgrif addas yn seiliedig ar wybodaeth a restrir ar y ffurflen:

- gweithiwr proffesiynol cofrestredig ym maes gofal iechyd, gan gynnwys meddyg teulu;
- bargyfreithiwr, cyfreithiwr neu adfocad;
- gweithiwr cymdeithasol cofrestredig; neu
- Adfocad Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA).

Mae'r ffurflen hefyd yn nodi y gall rhywun fod yn Ddarparwr Tystysgrif os yw'n ystyried bod ganddo'r sgiliau proffesiynol a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu Tystysgrif ond nad yw yn un o'r gweithwyr proffesiynol a restrir ar y ffurflen.

Os gofynnir i chi fod yn Ddarparwr Tystysgrif ac nid ydych yn un o'r gweithwyr proffesiynol a restrir, mae'n bwysig eich bod yn meddwl yn ofalus a oes gennych y sgiliau proffesiynol a'r arbenigedd hanfodol i ymgymryd â'r broses ardystio.

Os ydych yn Ddarparwr Tystysgrif yn seiliedig ar sgiliau ac nid ydych yn un o'r pedwar gweithiwr proffesiynol a restrir, bydd angen i chi nodi ar y Dystysgrif beth yw'ch sgiliau proffesiynol a'ch arbenigedd perthnasol.

Oes rhywun na all fod yn Ddarparwr Tystysgrif?

Oes. Rhaid i Ddarparwr Tystysgrif allu gweithredu'n annibynnol o'r Rhoddwr a'i Dwrnai/Dwrneiod. Golyga hyn fod angen i chi benderfynu a ydych yn mynd i ddarparu Tystysgrif neu beidio. Yn anad dim, ni allwch fod yn Ddarparwr Tystysgrif os ydych yn:

- aelod o deulu'r Rhoddwr neu'r Twrnai;
- partner busnes neu weithiwr cyflogedig i'r Rhoddwr neu Dwrnai/Dwrneiod;
- Twrnai a benodir yn y ffurflen hon neu LPA arall neu unrhyw Atwrneiaeth Barhaus (EPA) a wneir gan y Rhoddwr;
- perchennog, cyfarwyddwr, rheolwr neu weithiwr cartref gofal lle mae'r Rhoddwr neu aelod o'i deulu yn byw; neu

- cyfarwyddwr neu weithiwr corfforaeth ymddiriedolaeth a benodir yn Dwrnai yn yr LPA hon – **mae hyn ond yn berthnasol i rywun sy'n ardystio LPA Eiddo a Materion**.

Beth yw fy nghyfrifoldebau fel Darparwr Tystysgrif?

Bydd angen i chi siarad â'r Rhoddwr am atwrneiaethau arhosol yn gyffredinol, ac am gynnwys ei LPA yn rhywle lle mae'n teimlo y gall siarad neu gyfathrebu â chi'n rhydd.

Bydd angen i chi siarad â'r Rhoddwr yn breifat ac i ffwrdd o'i Dwrnai/Dwrneiod a bydd angen i chi gadarnhau yn y Dystysgrif eich bod wedi gwneud hyn. **Nid yw'r Dystysgrif yn ddilys os bydd y Twrnai'n bresennol pan fyddwch yn trafod yr LPA â'r Rhoddwr**.

Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle mae angen i rywun arall fod yn bresennol gyda'r Rhoddwr pan fyddwch yn trafod yr LPA ag ef. Er enghraifft, os yw'r Rhoddwr yn fyddar ac mae angen rhywun arnoch i gyfieithu iaith arwyddion i chi. Dylech nodi ar y Dystysgrif os oedd rhywun arall yn bresennol a pham. Ni ddylai'r person hwn fod y Twrnai/Twrneiod.

Bydd angen i chi asesu galluedd y Rhoddwr i ddeall beth yw LPA, pwysigrwydd yr LPA ac effaith y pwerau mae'n rhoi yn yr LPA.

Os ydych yn fodlon, dylech arwyddo'r Dystysgrif yn syth ar ôl trafod yr LPA â'r Rhoddwr. Y rheswm am hyn yw eich bod yn ardystio, pan fyddwch yn arwyddo'r Dystysgrif, eich bod yn credu bod gan y Rhoddwr y galluedd i wneud yr LPA.

Mae cymryd rôl Darparwr Tystysgrif yn bwysig iawn oherwydd ei bod yn darparu un o'r prif fesurau diogelwch ym mhroses yr LPA.

Os bydd unrhyw un yn penderfynu gwrthwynebu'r LPA pan fydd yn cael ei chofrestru, mae'n bwysig cofio efallai y bydd gofyn i chi esbonio'r rhesymau pam yn eich barn chi roedd gan y Rhoddwr y galluedd i greu'r pŵer ac nad oedd yn gweithredu o dan bwysau. Mae'n bosibl y bydd gofyn i chi esbonio hyn wrth y Llys Gwarchod.

Deall galluedd meddyliol

Nid yw prawf galluedd meddyliol ffurfiol yn hanfodol er mwyn darparu Tystysgrif. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn fodlon, yn eich barn chi, fod y Rhoddwr yn deall yr LPA mae'n ei gwneud, bod ganddo'r galluedd meddyliol i'w gwneud ac nad yw'n cael ei orfodi i'w gwneud.

Mae'n bwysig eich bod yn meddwl am y cwestiynau y bydd angen i chi eu gofyn i'r Rhoddwr i wybod am ei allu a'i ddealltwriaeth. Efallai y byddwch am ystyried gofyn y cwestiynau agored canlynol i'r Rhoddwr i'ch helpu i wybod:

1. Os yw'n deall yr LPA a'r pwerau mae'n eu rhoi:

- Beth yw LPA?
- Pam ydych eisiau gwneud LPA?
- Pwy ydych yn penodi yn Dwrnai i chi?
- Pam ydych wedi dewis penodi x yn Dwrnai i chi?
- Pa bwerau ydych chi'n eu rhoi i'ch Twrnai/Twrneiod?

2. Os oedd wedi cael ei roi o dan bwysau i wneud yr LPA?

- Ydy'r Twrnai wedi rhoi yr atebion i chi i gwestiynau penodol (fel y rhai a restrir uchod)?
- Oes gennych unrhyw reswm i gredu nad yw'r Twrnai'n ddibynadwy?

3. Os yw'n ymwybodol o unrhyw resymau eraill pam na ddylai'r LPA gael ei chreu?

Hefyd bydd angen i chi ofyn cwestiynau sy'n briodol i'r person a'r LPA o'ch blaen. Efallai y byddwch am baratoi rhestr wirio i'ch helpu gyda hyn.

Nid yw'r rhestr hon yn brawf galluedd ffurfiol ac fe'i darperir yn unig fel canllaw i'r mathau o gwestiynau efallai y byddwch am eu gofyn i'ch helpu wrth benderfynu a yw'r Rhoddwr yn deall yr LPA ac a yw wedi cael ei orfodi i'w gwneud.

Efallai y byddwch am gadw cofnod o'r cwestiynau rydych wedi eu gofyn ac ymatebion y Rhoddwr, ar ffurflen ar wahân ar gyfer eich cofnodion eich hunain.

Gyda phwy ydw i'n siarad ar ôl y cyfweliad â'r Rhoddwr os oes gennyf bryderon am alluedd y Rhoddwr neu am yr amgylchiadau mae'r LPA yn cael ei gwneud?

Dylech godi'ch pryderon gyda Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd a byddwn yn eu harchwilio a phenderfynu pa gamau i'w cymryd. Ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

A allaf wrthod bod yn Ddarparwr Tystysgrif?

Gallwch. Gallwch wrthod bod yn Ddarparwr Tystysgrif a dylech wneud hyn os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu ardystio unrhyw un o'r materion y gofynnir i chi ar y ffurflen.

Rhan B - Tystio

Beth yw Tyst?

Mae Tyst yn rhywun sy'n arwyddo ffurflen Atwrneiaeth Arhosol (LPA) i gadarnhau ei fod wedi Tystio:

- bod y Rhoddwr (y person sy'n gwneud yr LPA) wedi arwyddo a dyddio'r ffurflen LPA; neu
- fod y Twrnai (y person a benodir gan y Rhoddwr) wedi arwyddo a dyddio'r ffurflen LPA.

Mae'r Tyst yn rôl bwysig ac mae'n un o'r mesurau diogelwch wrth wneud LPA.

A allaf fod yn Dyst?

Bydd hyn yn dibynnu ar y llofnod y gofynnwyd i chi ei dystio.

Llofnod y Rhoddwr

Os gofynnwyd i chi Dystio llofnod y **Rhoddwr**:

- Gallwch fod yn Dyst os ydych yn 18 oed neu'n hŷn **ac nid ydych** yn Dwrnai a benodir yn yr LPA rydych yn ei harwyddo.
- Os gofynnwyd i chi fod y Darparwr Tystysgrif yn barod, gallwch fod yn Dyst hefyd os bydd y Rhoddwr yn gofyn i chi. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol mewn amgylchiadau lle nad yw'r Rhoddwr yn gallu dod o hyd i Dystion a Darparwyr Tystysgrif ar wahân.

Noder: Ni allwch **dystio llofnod y Rhoddwr** os ydych yn Dwrnai a benodir yn yr LPA rydych yn ei harwyddo.

Llofnod y Twrnai

Os gofynnwyd i chi Dystio llofnod y **Twrnai**, caniateir i chi fod yn Dyst os ydych yn 18 oed neu'n hŷn a hefyd os ydych yn Ddarparwr Tystysgrif neu'n **Dwrnai arall** a benodir yn yr LPA.

Beth yw fy nghyfrifoldebau fel Tyst?

Mae gofyn i chi Dystio'r Rhoddwr neu'r Twrnai/Twrneiod (neu'r ddau) yn arwyddo ac yn dyddio'r ffurflen LPA. Gallai Tyst gwahanol gael ei ddefnyddio i bob person sy'n arwyddo ac yn dyddio'r ffurflen. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn gweld y person perthnasol yn arwyddo ac yn dyddio'r ffurflen ac ni ddylech ei harwyddo fel Tyst oni bai eich bod wedi gweld hyn.

Cysylltu â ni

Gallwch gael gwybodaeth bellach am fod yn Ddarparwr Tystysgrif neu'n Dyst o God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol pennod 7, neu drwy gysylltu â'r OPG

Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd
Archway Tower
2 Junction Road
Llundain N19 5SZ

Rhif Ffôn: 0845 330 2900
Rhif Ffacs: 020 7664 7705
E-bost: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk
Gwefan: www.publicguardian.gov.uk
DX: 141150 Archway 2
Ffôn Destun: 020 7664 7755 (os oes gennych anhawsterau lleferydd neu glyw ac mae gennych fynediad i ffôn destun, gallwch ffonio ffôn destun yr OPG a byddwn yn eich cynorthwyo).
Galwadau Rhyngwladol: +44 20 7664 7000
Ffacsiau Rhyngwladol: +44 20 7664 7705

Noder: Mae'r OPG yn rhoi cyngor ar brosesau OPG yn unig, ac ni all rhoi cyngor neu wasanaethau cyfreithiol i unrhyw barti. Mae'r OPG yn argymell eich bod yn chwilio cyngor cyfreithiol annibynnol lle bo'n briodol. Credir bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg argraffu, fodd bynnag, nid yw'r OPG yn derbyn atebolrwydd ar gyfer unrhyw wall efallai y gall gynnwys.

© Hawlfraint y goron 2007